Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 3 Rhagfyr 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

## Agenda
(167)v5

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**
**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: O ystyried y dirywiad yng nghanlyniadau Cymru mewn perthynas â'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella, ar fyrder, y safonau addysg a chyrhaeddiad yng Nghymru?

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**4 Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Ymatebion i'r Papur Gwyn "Rhentu Cartrefi" (30 munud)**

**5 Dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg (Cymru) (60 munud)**

NDM5376 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Addysg (Cymru).

Gosodwyd Bil Addysg (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 1 Gorffennaf 2013.

Gosodwyd adroddiad Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Bil Addysg (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 22 Tachwedd 2013.

Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:

Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw rhan 3 wedi ei chynnwys mewn Bil anghenion addysgol arbennig ar wahân i blant a phobl ifanc.

Dogfennau Ategol
Bil Addysg (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Bil Addysg (Cymru)
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - Adroddiad ar y Bil Addysg (Cymru)

**6 Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â Bil Addysg (Cymru) (5 munud)**

NDM5377 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Addysg (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**7 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (60 munud)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:

1. Adolygu gweithrediad y Ddeddf
4, 1

2. Trefniadau trosiannol
6, 7

3. Cynrychiolaeth ar gyrff llywodraethu
5, 5A, 3
*Gwelliant 5 yw'r prif welliant yn y grŵp*
*Bydd y gwelliannau hyn yn cael eu gwaredu yn y drefn: 5A, 5, 3*

4. Ymgynghoriad gan y corff
8

5. Colli swyddi
2

**Dogfennau Ategol**
Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli
Grwpio Gwelliannau

**8 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) (5 munud)**

Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

**9 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Cyllid y GIG (Cymru) (60 munud)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

1. Trosolwg
1

2. Dyletswyddau ariannol Bryddau Iechyd Lleol
2

3. Dyletswyddau Cyllunio Byrddau Iechyd Lleol a Gweinidogion Cymru
3

4. Cyflwyno Adroddiadau
4, 4A, 5, 7, 8
*Bydd y gwelliannau hyn cael eu gwaredu yn y drefn - 4A, 4, 5, 7*

5. Pŵer i fenthyca

6

Dogfennau Ategol
Bil Cyllid y GIG (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli
Grwpio Gwelliannau

**10 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Cyllid y GIG (Cymru) (5 munud)**

Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Cyllid y GIG (Cymru)

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28 Tachwedd 2013 i'w hateb ar 3 Rhagfyr 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch plismona yng Nghymru? OAQ(4)1374(FM)

2. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yng nghyswllt yr amgylchedd yn Nhorfaen? OAQ(4)1385(FM)

3. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefel yr ardrethi busnes yn ne-ddwyrain Cymru? OAQ(4)1372(FM)

4. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo cyflog byw ymysg cyflogwyr yng Nghymru? OAQ(4)1373(FM)

5. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gynyddu ystod y teithiau hedfan o Faes Awyr Caerdydd? OAQ(4)1386(FM)

6. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am nifer y bobl sy'n defnyddio mesuryddion rhagdalu ar gyfer biliau ynni yn Islwyn? OAQ(4)1375(FM)

7. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn diogelu pobl hŷn yn eu cartrefi? OAQ(4)1380(FM)

8. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gydag arweinwyr awdurdodau lleol ynghylch Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai? OAQ(4)1384(FM)

**9. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu effaith polisïau iechyd Llywodraeth Cymru ar Ddwyrain De Cymru? OAQ(4)1379(FM)

**10. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithdrefn asesu Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol y GIG yng Nghymru? OAQ(4)1376(FM)

**11. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar undebau credyd? OAQ(4)1371(FM)

**12. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Rhaglen Ryngwladol ar gyfer Asesu Myfyrwyr? OAQ(4)1387(FM)

**13. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu niferoedd y teithwyr ar reilffyrdd ledled Cymru? OAQ(4)1383(FM)

**14. Leighton Andrews (Rhondda):** A wnaiff y Prif Weinidog ymhelaethu ar y sylwadau a wnaeth yn ei araith ddiweddar yn yr Alban ar sefyllfa sterling mewn perthynas â Chymru? OAQ(4)1370(FM)

**15. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am roi sganio gwegilog ar waith yng Nghymru? OAQ(4)1382(FM)

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 26 Tachwedd 2013 i'w hateb ar 3 Rhagfyr 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

1. Alun Ffred Jones (Arfon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cyfleusterau chwaraeon ar hyd a lled Cymru? OAQ(4)0100(CS)W

2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol llyfrgelloedd yng Nghymru? OAQ(4)0092(CS)

3. Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar berchenogaeth gymunedol o chwaraeon? OAQ(4)0089(CS)

4. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Gweinidog amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon? OAQ(4)0095(CS)

5. David Rees (Aberafan): Sut y mae'r Gweinidog yn gweithio gydag adrannau Gweinidogol eraill i gynorthwyo sector treftadaeth Cymru? OAQ(4)0099(CS)

6. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnydd Llywodraeth Cymru o gyrff o'r tu allan i Gymru i hyrwyddo digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru? OAQ(4)0097(CS)W

7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd o ran llunio Cofrestr o Feysydd Brwydrau Hanesyddol yng Nghymru? OAQ(4)0091(CS)

8. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Sut y mae'r Gweinidog yn hyrwyddo'r defnydd effeithiol o randiroedd? OAQ(4)0101(CS)

9. William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu mesurau i annog pobl ifanc i gyfranogi mewn gweithgareddau artistig? OAQ(4)0090(CS)

10. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu treftadaeth grefyddol Cymru? OAQ(4)0087(CS)

**11. Russell George (Sir Drefaldwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod safleoedd o ddiddordeb hanesyddol yn Sir Drefaldwyn? OAQ(4)0094(CS)

**12. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer chwaraeon yng Nghymru ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)0088(CS)

**13. Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr Adolygiad o'r Celfyddydau mewn Addysg? OAQ(4)0098(CS)

**14. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddenu pencampwriaethau a gwyliau chwaraeon i Gymru? OAQ(4)0096(CS)**W**

**15. Gwyn Price (Islwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod adeiladau hanesyddol yng Nghymru? OAQ(4)0093(CS)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 10 Rhagfyr a dydd Mercher 11 Rhagfyr 2013
Toriad: Dydd Llun 16 Rhagfyr 2013 – Dydd Sul 12 Ionawr 2014
Dydd Mawrth 14 Ionawr a dydd Mercher 15 Ionawr 2014
Dydd Mawrth 21 Ionawr a dydd Mercher 22 Ionawr 2014
********************************************************************

Dydd Mawrth 10 Rhagfyr 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: PISA 2012 (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Dŵr (15 munud)
- Dadl ar y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2014-15 (60 munud)
- Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy (60 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (60 munud)
  Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil. Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.
- Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Julie Morgan (Gogledd Caerdydd) (30 munud)

Dydd Mawrth 14 Ionawr 2014

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon: Gwasanaethau Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Rhoi Polisi Amaethyddol Cyffredin newydd ar waith (30 munud)
- Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru Rhif 2) 2013 (15 munud)
- Dadl: Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol ar gyfer 2014-15 (60 munud)
- Dadl: Yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2012-13 (60 munud)

Dydd Mercher 15 Ionawr 2014

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

Dydd Mawrth 21 Ionawr 2014

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cynlluniau Newid Gwasanaethau Hywel Dda (30 munud)

- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Perfformiad Llywodraeth Leol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Gwella perfformiad adeiladau yng Nghymru o ran eu defnydd o ynni (30 munud)
- Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Taliadau Gan Gynghorau Plwyf, Cynghorau Cymuned ac Ymddiriedolwyr Siarter) 2013 (15 munud)
- Dadl ar sicrhau mynediad gwell at ein treftadaeth a'n diwylliant (60 munud)

Dydd Mercher 22 Ionawr 2014

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr Ymchwiliad i Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)